# Grŵp Trawsbleidiol ar Ddeddf Aer Glân i Gymru

**Cross Party Group Clean Air Act for Wales**

11:00 – 12:00

26.01.2022

Cyfarfod rhithwir gan ddefnyddio Teams

Virtual meeting using Teams

**Yn bresennol**

Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)
Llyr Gruffydd AS
Heledd Fychan AS
Delyth Jewell AS
Janet Finch-Saunders AS
Rosamund Kissi-Debrah
Joseph Carter
Annie Fabian
Liz Williams
Charlotte Morgan
Ryland Doyle
Rylan Ellis
Gwenda Owen
Haf Elgar
Joe Rossiter
Neil Lewis
Paul Lewis
Dan Rose
Tomos Rowley
Ruth Billingham
Rhys Taylor
Paul Willis
Olwen Spillar
Callum Shaw
Huw Brunt
Oliver John

**Ymddiheuriadau**
Rhun ap Iorwerth AS
Cynghorydd Mark Thomas

**Camau gweithredu**

- Pennu dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf
- Cylchredeg cofnodion o'r cyfarfod
- Aelodau a phawb i awgrymu meysydd pwnc a rhannu syniadau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf

1. **Cadeirydd, Huw Irranca-Davies AS:** Cofnodion y cyfarfod diwethaf
   **Chair, Huw Irranca-Davies MS:** Minutes of the last meeting

Cymeradwywyd y cofnodion.

2. **Cyflwyniad gan Rosamund Kissi-Debrah:** Ar effaith llygredd aer ar ysgyfaint plant
   **Presentation by Rosamund Kissi-Debrah:** On the impact of air pollution on children's lungs

Huw Irranca-Davies AS: Cyflwyno Rosamund Kissi-Debrah a'i chroesawu i'r grŵp

- Joseph Carter a Rosamund Kissi-Debrah i gynnal sesiwn Holi ac Ateb

Joseph Carter: Mae gennyf ambell gwestiwn i'w gofyn i Rosamund Kissi-Debrah, a diolch i chi am fod yma heddiw

- Dywedwch wrthym am eich merch Ella a'r gwaith rydych chi wedi'i wneud drwy Sefydliad Teulu Ella Roberta

Rosamund Kissi-Debrah:

- Ella oedd fy nghyntaf-anedig a byddai wedi bod yn 18 erbyn hyn, doedd hi ddim yn annhebyg i blant eraill
- Mae gan 1.1 miliwn o blant asthma yn y DU, mae llawer o afiechydon eraill yn gysylltiedig â llygredd aer ond byddwn yn canolbwyntio ar asthma
- Cafodd Ella ei geni'n iach heb unrhyw broblemau anadlu, ym mis Hydref 2010 roedden ni'n gwybod bod rhywbeth o'i le, roedd hi bron yn 7 a gall yr hyn ddigwyddodd iddi hi ddigwydd i unrhyw blentyn arall
- Roedd Ella yn iach iawn hyd nes doedd hi ddim a gellir cysylltu asthma â llawer o bethau ond roedd y meddyg yn diystyru ysmygu neu achosion feirol eraill
- Dioddefodd Ella fath prin o asthma difrifol
- Fe wnaethon ni sefydlu'r elusen gyda Dr Wallis o Ysbyty Great Ormond Street, roeddem yn awyddus i ddysgu pam roedd ei asthma mor ddifrifol a defnyddio'r hyn ddysgon ni i helpu plant eraill
- Fe ddyfarnodd y crwner bod llygredd aer wedi cyfrannu at farwolaeth Ella a dechrau ei asthma, pe byddem yn byw gyda lefelau is o lygredd aer mae'n debyg na fyddai wedi cael asthma
- Mae nifer syfrdanol o blant sydd ag asthma yng Nghymru (59000), 3 ym mhob dosbarth, mae hyn yn achos pryder enfawr ac nid yw'n dderbyniol

- Fy rôl i (Rosamund Kissi-Debrah) yw Llysgennad Breathe Life ar gyfer Sefydlid Iechyd y Byd a Chyfansoddiad Hinsawdd
- Rwy'n mynd o amgylch ac yn siarad â meiri mewn dinasoedd a llefydd diwydiannol yn eu hannog i gadw llygredd aer mewn cof wrth wneud deddfwriaeth (byddaf yn anfon argymhelliad cyntaf yr hyn oedd yn pryderu'r crwner sydd angen mynd i'r afael ag ef i lywio deddfwriaeth)
- Rwy'n synnu bod deddfwriaeth wedi cymryd dwy flynedd ac rwy'n gofyn i'r Grŵp Trawsbleidiol ddod i ryw gonsensws a gweithio ar ddeddfwriaeth (ar lygredd aer)
- Mae Covid wedi tynnu sylw at yr hyn mae'n ei olygu i bobl sy'n cael trafferth anadlu a doedd dim gwahaniaeth rhwng Ella a gweld claf Covid yn brwydro i anadlu yn yr Uned Gofal Dwys
- Mae cysylltiad hefyd rhwng covid a llygredd aer

Joseph Carter: Gan eich bod wedi cyffwrdd ag ef, beth yw eich neges i lunwyr polisi?

Rosamund Kissi-Debrah:

- Siomedig nad oedd PM2.5 wedi mynd i mewn i Ddeddf yr Amgylchedd
- Nid yw nifer y plant sy'n marw o asthma wedi mynd i lawr, mae yna 24-26 o farwolaethau yn y DU, dyw'r niferoedd hyn ddim wedi newid
- Mae gan ymgynghorwyr anadlol gyfarfodydd bob mis er mwyn darganfod pam
- Ein nod yw na fydd unrhyw blentyn yn marw o asthma, dim ond os yw'r aer yn lân y gellir cyflawni hyn
- Rydyn ni'n gwybod o ble mae'r llygredd yn dod, er enghraifft llosgi coed, sy'n garsinogenig
- Hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod gwleidyddion yn dadlau dros swyddi ond bod yn rhaid iddyn nhw edrych ar iechyd hefyd, nid economi yn unig
- Mae llygredd aer wedi'i gysylltu â nifer o faterion iechyd, sy'n costio llawer o arian
- Bydd gennym genedl iachach gyda mwy o bobl mewn gwaith a llai o wario ar y gyllideb iechyd os yw'r aer yn lân
- Nid yw'n ymwneud â llygredd aer yn unig mae'n ymwneud ag ansawdd bywyd
- Mae bwlch o 12 mlynedd mewn disgwyliad oes rhwng cyfoethog a thlawd, mae covid wedi amlygu'r anghydraddoldebau o ran iechyd ac mae llygredd aer yn un ohonyn nhw
- Mae mannau lle mae llygredd ar ei waethaf yn tueddu i fod mewn ardaloedd difreintiedig
- Gofynnwyd i'r ymholiad Covid gynnwys llygredd aer yn y cylch gorchwyl
- Mae llygredd aer yn gwanhau systemau imiwnedd pobl
- Rwy'n credu y bydd astudiaethau i ddangos bod llygredd aer yn ffactor mawr o ran Covid
- Mae 91% ohonom yn anadlu aer anghyfreithlon

Delyth Jewell AS: Roeddwn am ddweud pa mor ingol yw'r hyn rydych chi'n ei ddweud a'ch bod chi'n siarad â phobl sydd eisiau helpu

Rosamund Kissi-Debrah:

- Rwy'n cwrdd â meddygon anadlol unwaith y mis ac yn gofyn iddyn nhw ddweud wrthyf pan fydd plentyn yn marw, bydd yn fy nghadw ar flaenau fy nhraed ac yn fy ngwthio ymhellach
- Dyna pam dwi'n fentrus pan dwi'n gofyn ohonoch beth dw i eisiau gan fod plant yn marw
- Ni ddylem fagu cenhedlaeth gyfan o blant ar bympiau asthma

Joseph Carter: O ran gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, pa gamau rydych chi'n meddwl y dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn eu cymryd i amddiffyn plant rhag llygredd aer a sut rydyn ni'n helpu rhieni i wneud dewisiadau da?

Rosamund Kissi-Debrah:

- Gwnewch yn siŵr bod gan bob plentyn sydd ag asthma gynllun gofal ac adolygiad blynyddol ac os ydynt yn parhau i fynd i'r ysbyty dewch â'r adolygiad ymlaen
- Mae cynllun asthma yn hanfodol fel arall maent yn llithro drwy'r rhwyd
- Sylweddolodd y crwner nad yw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymwybodol o lygredd aer a bod angen eu haddysgu am hyn
- Mae angen addysgu byrddau
- Mae angen i feddygon fod yn rhoi gwybodaeth i'w cleifion, mae angen i feddygfeydd gael gwybodaeth am lygredd aer
- Mae rhaniad rhwng iechyd cyhoeddus a meddygon meddygol, mae angen i ni gael gwared ar y rhwystrau
- Yr ateb sydd ei angen yw addysg, meddygon, pawb ym maes iechyd, a'r cyhoedd yn gyffredinol
- Mae hwn yn lle da iawn i ddechrau ac mae yn argymhellion y crwner

Joseph Carter: Cwestiwn olaf, beth yw eich prif neges i wleidyddion Cymru i wella llygredd aer yng Nghymru?

Rosamund Kissi-Debrah:

- Canllawiau newydd Sefydliad Iechyd y Byd - cafodd y rhai diwethaf eu hysgrifennu yn 2005 a chawsant eu diweddaru y llynedd
- Mae bywydau 7 miliwn o bobl yn fyd-eang yn cael eu torri'n fyr oherwydd llygredd aer
- Maen nhw (y canllawiau) yn anodd ond mae pob un bywyd yn werth y drafferth, byddan nhw'n achub bywydau ac yn gwella ansawdd bywyd
- Mae angen i Gymru ganolbwyntio ar ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd
- Mae 17,000 o ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau Covid, beth sydd wedi cyfrannu? Bydd glanhau'r aer yn dda i bobl Cymru
- Cyflwr gydol oes yw asthma, mae pobl yn eu 40au a 50au yn cael asthma eto
- Mae gan bobl ger ffyrdd prysur 10% o siawns o ganser yr ysgyfaint a bydd 1 o bob 2 o bobl yn cael canser yr ysgyfaint
- Mae Covid yn gallu cau'r economi a dyw llygredd aer ddim, ond edrychwch ar yr holl afiechydon rydw i wedi sôn amdanyn nhw
- Ystyriwch ymgyrch iechyd cyhoeddus i addysgu pobl Cymru
- Bydd pobl yn ymateb yn dda, wyddon nhw ddim beth i'w wneud a bydd angen arweiniad ar ffurf ymgyrch iechyd cyhoeddus gyda chefnogaeth y llywodraeth
- Sicrhewch bod segura yn cael ei wahardd, bod arwyddion priodol i rybuddio pobl
- Yn 2022 ni ddylai unrhyw blentyn farw o asthma,
- Felly, byddwn yn argymell targedau Sefydliad Iechyd y Byd, yn bendant ymgyrch iechyd cyhoeddus i gael cefnogaeth pobl, segura yn bendant, ac os gallaf gynnwys llosgi coed, os byddwch yn ei wahardd bydd PM2.5 yn mynd i lawr

Joseph Carter: diolch

Huw Irranca-Davies AS: diolch, Rosamund rydych chi wedi rhoi angerdd, ysbrydoliaeth a mewnwelediad i ni gan ganolbwyntio ar fesurau ymarferol

- Gadewch i mi agor i'r Aelodau ar gyfer cwestiynau neu sylwadau

- Fe agorwn ni i bob grŵp ar gyfer cwestiynau neu sylwadau

Gwenda Owen: Un o'r areithiau mwyaf pwerus rydw i wedi ei chlywed, mae angen i bobl glywed y realiti a'r brys. Diolch i chi am rannu’r neges.

Paul Willis: Rwy'n rhedeg y gronfa ddata ansawdd aer ar gyfer Llywodraeth Cymru, rwy'n credu ei bod yn anhygoel beth rydych chi'n ei wneud i ddod â sylw i’r mater, yn y tymor byr mae angen i ni gyhoeddi rhybuddion am lygredd aer uchel, beth yw eich barn chi am ei gadw'n syml i bobl fel teuluoedd i wybod pan nad yw'n ddiogel?

Rosamund Kissi-Debrah:

- Defnyddio system goleuadau traffig ar gyfer llygredd aer
- Mewn llygredd aer uchel, mae mwy o ataliadau ar y galon a phyliau o asthma
- Yn Llundain mae rhybuddion ar arwyddion safle bysiau pan fydd diwrnod llygredd aer uchel. Nid yw'n wych a dylai'r aer fod yn lanach, ond rhybuddiwch pobl
- Rhowch e ar fapiau ar ôl y tywydd, gwnewch e'n syml iawn
- Mae angen iddo fod yn glir ac yn gryno a bydd pobl yn ymuno
- Dylai segura o gwmpas ysgolion gael ei wahardd.
- Mae gennym strydoedd ysgol lle nad oes dim ceir yn cael mynd yno ychydig cyn gollwng a chodi
- Mae hefyd ynghylch annog rhieni i gerdded eu plant i'r ysgol yn hytrach na gyrru, wn i ddim am eich sefyllfa chi ond yn Llundain mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd i'w hysgol leol felly rydyn ni'n eu hannog i gerdded i'r ysgol

Huw Irranca-Davies AS: Ry'n ni'n gwneud gwaith cyfochrog, yn ceisio symud cludiant ysgol i gerdded a beicio ond mae'n anodd perswadio rhieni. Mae hynny’n waith parhaus.

Oliver John: Diolch am y cyflwyniad. Diddordeb arbennig mewn ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgyrchoedd a negeseuon. Beth yw eich ystyriaeth o ymwybyddiaeth mewn pobl ifanc?

Rosamund Kissi-Debrah: o ran newid hinsawdd mae pobl ifanc yn ymgysylltu mwy.

- Y camgymeriad oedd nad oedd yr hinsawdd yn gysylltiedig ag iechyd, dylen ni weld yr holl beth fel argyfwng iechyd cyhoeddus.
- Pan fyddwn yn siarad am lygredd aer rydyn ni’n siarad am iechyd, rydym am i'r adran iechyd weithio ar hyn
- I rai pobl maent yn anwybyddu’r amgylchedd, dyma'r tro cyntaf i iechyd gyrraedd agenda COP
- Mae pobl ifanc yn hawdd iawn siarad â nhw, maen nhw'n deall y peth hinsawdd. Nid nhw yw'r broblem. Cawsant sioc fawr pan ddaethon nhw i wybod bod fy merch wedi marw o asthma
- Rydw i wedi arfer siarad â phobl ifanc, maen nhw'n ei dderbyn yn dda ac yn ymgysylltu'n aruthrol, mae angen i ni sôn mwy am iechyd. Y genhedlaeth hŷn sydd ychydig yn ddisymud.

Gwenda Owen: Ydych chi'n meddwl bod angen i ni daro’n galetach? Weithiau rydyn ni'n rhy glên ac ofn tramgwyddo pobl. Yn enwedig segura, oes angen dweud 'wyt ti'n gwybod beth wyt ti'n wneud'?

Rosamund Kissi-Debrah:

- Nid dychryn yw'r ffordd orau bob amser, oes mae angen i ni daro’n galetach ond does dim angen i ni eu dychryn.
- Does dim angen inni ddangos plant yn marw. Mae angen i ni orfodi pethau - mae segura yn erbyn y gyfraith, os ydych chi'n dechrau rhoi tocynnau bydd y gair yn lledaenu.
- Bydd dychryn pobl yn troi rhai i ffwrdd, does dim angen i ni droi pobl i ffwrdd. Ar y cyfan fydd hi ddim yn dda gwneud hynny
- Os oes deddfwriaeth yn barod mae angen i ni ddefnyddio hynny, bydd yn cyfleu'r neges honno.
- Mae angen i ni orfodi hynny mwy, yn ystod oriau brys ysgolion, mae llygredd aer yn codi 50-60%. Rwy’n credu yr hoffai penaethiaid pe baen ni’n gadarnach. Dylen ni fod yn gadarnach drwy ddeddfwriaeth sydd gennym yn barod.

Huw Irranca-Davies AS: Sylwais ar barth gwahardd dros dro o amgylch ysgol oherwydd tagfeydd. Ond dros dro oedd hynny, beth am ei wneud yn waharddiad parhaol ac edrych ar weithio gyda llywodraethwyr i annog rhieni i gerdded a beicio i'r ysgol?

Yr Athro Paul Lewis: Mae digon o dystiolaeth bod dod i gysylltiad (â llygredd) mewn car segur yn uwch y tu mewn na'r tu allan. Felly mae cael eich casglu yn golygu dod i gysylltiad llawer uwch hyd yn oed i'r plant hynny

Rosamund Kissi-Debrah:

- Hyd yn oed gyda cheir trydan mae gennym lwch teiars a brêcs yn gwisgo
- Maen nhw'n well ond nid dyna fydd yr ateb, os byddwch chi'n newid pob injan ddisel a phetrol wnewch chi fyth ddatrys problemau tagfeydd. Bydd yn well ond bydd gennych chi deiars a brêcs yn gwisgo o hyd
- Efallai bod angen annog hyfedredd beicio yn yr ysgol, ond mae angen cofio bod teuluoedd tlawd iawn nad ydynt yn gallu fforddio beiciau.
- Mae angen i ni gofio nad oes gan y bobl dlotaf geir, eto nhw sy'n dioddef y rhan fwyaf o broblemau llygredd aer
- Mae'r bobl dlotaf yn defnyddio bysiau. Dwi'n ffan mawr o fysiau, os ydym yn annog pobl i adael ceir
- Sut beth yw eich seilwaith? Mae pobl o hyd angen cyrraedd llefydd ar amser. Rhoddir cymhorthdal i drafnidiaeth gyhoeddus mewn sawl rhan o Ewrop
- Os ydym am annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae angen i ni sicrhau ei fod yn hygyrch.
- Efallai mai dim ond un bws yr awr sydd gan bobl mewn ardaloedd gwledig.
- Mae llawer o lygredd aer yn dod o longau hefyd, cymaint o bethau i ddeddfwyr eu hystyried.

Huw Irranca-Davies AS: mae eich gwybodaeth a'ch angerdd yn helaeth ac rydych yn cyffwrdd â meysydd yng Nghymru sydd o dan ddatblygiad polisi

Rosamund Kissi-Debrah: Rydyn ni yma i wneud pwynt am iechyd, nid yr economi

- Canolbwyntio ar iechyd plant a phobl ifanc ac iechyd pobl yn gyffredinol
- Diolch am y cyfle.

Huw Irranca–Davies AS: Yn y dyddiau diwethaf byddai wedi bod yn ben-blwydd ar Ella, rydych wedi gwneud gwaith gwych gyda'r sefydliad

Rosamund Kissi-Debrah: dyma sefydliad Ella-Roberta, www.ellaroberta.org

- I mi, i grynhoi, pan mae rhywbeth yn eich gyrru, rydych chi'n gwneud pethau. Fe wnaeth fy nharo i'n fawr pan ddywedodd Sadiq Khan ei gydymdeimlad tuag at eich teulu ond yn ei dro fe fydd hi'n achub cannoedd o fywydau
- Diolch o galon am fy nghael i.
- Hoffwn bwysleisio y dylai pob plaid gydweithio er dyfodol pawb yng Nghymru

Huw Irranca-Davies AS: diolch gymaint mae wedi bod yn ysbrydoliaeth

**Joseph Carter** – Cyflwyniad ar ymrwymiadau'r pleidiau ynghylch Deddf Aer Glân i Gymru
**Joseph Carter** – Presentation on party commitments around a Clean Air Act for Wales

- Mae pleidiau wedi rhoi gwybodaeth am flaenoriaethau mewn deddf aer glân
- Rhoddodd pob plaid ymrwymiad i gymeradwyo deddf aer glân, rydym wedi bod yn ystyried beth mae hynny'n ei olygu
- Mae'r papur gwyn yn llinell sylfaenol o'r hyn y mae llywodraeth lafur Cymru am ei gyflawni
- Consensws ynglŷn â chael deddf aer glân ac angen targedau i'r dyfodol
- Llai o gonsensws ar agweddau eraill

Huw Irranca-Davies AS: Mae'n ddefnyddiol cael ei weld ar ffurf graffig ac efallai mai rhai o'r bylchau yw nad yw wedi cael ei nodi fel polisi plaid, gallai hyn fod yn gyfle i fynd yn ôl at y pleidiau a gofyn beth yw'r sefyllfa ar hyn?

Unrhyw sylwadau?

Joseph Carter: hapus i gymryd cwestiynau ar ôl cyfarfod a byddaf yn rhannu'r cyflwyniad

- Diolch i Liz

4. **Huw Irranca-Davies AS:** Trafodaeth ynghylch cynllun gwaith 2022
   Huw Irranca Davies MS: Discussion around 2022 workplan

Huw Irranca-Davies AS: Yn y funud olaf ond rhaid cael trafodaeth i weithio drwy'r cynllun wrth symud ymlaen

Joseph Carter: A allai Aelodau gysylltu gyda phethau sy'n bwysig ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol?

- Cyfarfod nesaf i ganolbwyntio ar addysg mewn ysgolion
- Hapus ag unrhyw syniadau sydd gennych chi, cadeirydd, ac is-gadeirydd ar gyfer cyfarfodydd
- Nesaf i fod ychydig cyn neu ar ôl gwyliau'r Pasg

Huw Irranca Davies AS: a allaf awgrymu, os ydym yn cylchredeg syniadau, y gallwn gasglu eich syniadau, o ran Aelodau ac ar y cyd, yna gallwn gael syniadau am raglen wrth symud ymlaen i Fehefin/ Gorffennaf

- Canolbwyntio'n llwyr ar ddeddfwriaeth aer glân a phethau eraill y gallwn eu gwneud nawr heb ddeddfwriaeth

**5. Unrhyw fater arall**

Unrhyw fater arall

Huw Irranca-Davies AS: Unrhyw sylwadau terfynol cyn cau?

Dim sylwadau

Huw Irranca-Davies: Diolch yn fawr iawn, ac i'r rhai sy'n helpu i drefnu'r cyfarfod hwn